




WHESS

Welsh
Health
Economic
Support
Service

Gwasanaeth
Cymorth
Economeg
Iechyd
Cymru



Adroddiad Blynyddol 2016/17



Cynnwys

Rhagair	Tudalen 2
Ein nod	Tudalen 3
Ein pecynnau gwaith	Tudalen 4
Prif gyflawniadau.....	Tudalen 7
Datblygu a mesur effaith tymor hwy ein gwaith	Tudalen 13
Casgliadau a blaenoriaethau'r dyfodol.....	Tudalen 14

Rhagair

Wedi ei ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru (WHES) yn wasanaeth cymorth seilwaith Cymru gyfan. Mae WHES yn dwyn ynghyd economegwyr iechyd sydd wedi'u lleoli yn y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME),

Prifysgol Bangor a Chanolfan Economeg Iechyd Abertawe (SCHE), Prifysgol Abertawe. Mae hyn yn caniatáu mynediad cyfartal at, a darparu'r arbenigedd priodol ledled Cymru mewn economeg iechyd i helpu i gynllunio, cynnal a chyflawni ymchwil o'r safon uchaf gyda'n cydweithredwyr.



Ymchwilwyr WHES o Fangor ac Abertawe, Hydref 2016

Ein cenhadaeth yw cefnogi ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol a, thrwy gynhyrchu tystiolaeth a defnydd o 'egwyddorion economaidd', goleuo a gwella prosesau penderfynu mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rydym wedi parhau i adeiladu ar y rhwydweithiau a oedd wedi'u datblygu eisoes, â phartneriaid allweddol ledled Cymru; mae ein gwaith wedi cynorthwyo'r Unedau Treialon Clinigol (CTU), Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd y GIG, llywodraeth leol, mudiadau trydydd sector, academyddion ac ymchwilwyr. Rydym hefyd wedi cymryd camau pwysig i wella Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) yn ein gweithgareddau.

Roedd y pwyslais yn 2016/17 ar atgyfnerthu ein perthynas gydweithredol er mwyn hybu'r twf mewn incwm ymchwil, gwella ansawdd ein hallbynnau ymchwil a datblygu strategaeth

gydlynus i sicrhau bod ein gwaith yn cael effaith ystyrlon a gweladwy i wella iechyd a bywydau pobl yng Nghymru. Mae'r buddsoddiad mewn meithrin galluoedd o fewn WHES yn galluogi cymuned gref, ymatebol ac amrywiol o economegyddion iechyd wedi'u lleoli yng Nghymru, gydag ystod o sgiliau craidd ac arbenigol yn y ddisgyblaeth hon sy'n esblygu'n gyflym.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi cynnydd a phrif gyflawniadau WHES yn y cyfnod 1 Ebrill 2016 - 31 Mawrth 2017, ac mae'n disgrifio ein ffordd o ddatblygu cynlluniau tymor hwy ar gyfer effaith, a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Ein Nod

Nod cyffredinol WHESS yw cyfrannu at amcanion Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru trwy **ddarparu cymorth ar arbenigedd mewn economeg iechyd i'r gymuned iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru**. Rydym wedi gwneud hyn trwy gydweithio â GIG Cymru, sefydliadau gofal cymdeithasol a Phrifysgolion ledled Cymru i ddarparu cymorth economeg iechyd yng nghamau cynnar datblygiad syniad ar gyfer ymchwil, gan helpu ceisiadau am nawdd ac i ledaenu ac i roi canfyddiadau ymchwil ar waith.


Rydym yn gwneud hyn trwy ddarparu dwy brif swyddogaeth:

i) **Darparu cyngor ar economeg iechyd i'r GIG a sefydliadau gofal cymdeithasol yng Nghymru.** Mae hyn yn cynnwys cyngor ar syniadau cynnar ar gyfer ymchwil, cyfrannu at ddatblygu cynigion ar gyfer ymchwil a cheisiadau am nawdd a helpu i ledaenu

canfyddiadau ymchwil. Gwneir hyn yn bennaf trwy **Wasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil (RDCS)** Cymru gyfan; gyda WHESS yn cynnig cymorth arbennig i'r tri gwasanaeth rhanbarthol yng Nghymru.

ii) **Cynnal a datblygu cymuned ymchwil economeg iechyd gydlynus** sy'n cyfrannu at ac, mewn rhai achosion, yn arwain prosiectau ymchwil gyda chydweithwyr ymchwil eraill ledled Cymru, yn enwedig cynorthwyo â gwaith canolfannau ac unedau eraill o fewn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Rydym hefyd yn darparu swyddogaeth strategol trwy roi cyngor ac arbenigedd mewn economeg iechyd yng Nghymru, gan gydweithio'n glos â sefydliadau gan gynnwys Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG), Iechyd Cyhoeddus Cymru, Awdurdodau Lleol a Mudiadau Trydydd Sector fel Gofal Canser Tenovus.

Sut mae WHESS yn hwyluso ymchwil a phrosesau penderfynu mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.



Ein Pecynnau Gwaith

/// Cynorthwyo ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Yn ein pecyn gwaith craidd, rydym wedi darparu cyngor ar economeg iechyd sy'n gysylltiedig ag ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, wedi cynorthwyo i ddatblygu camau cynnar cynigion ar gyfer ymchwil ac, mewn achosion priodol, wedi cydweithredu fel cyd-ymgeiswyr ar geisiadau am nawdd. Rydym wedi datblygu cysylltiadau â grwpiau economeg iechyd eraill y tu allan i Gymru ac wedi cydweithredu â grwpiau ymchwil rhyngwladol eraill i sicrhau bod gan Gymru broffil rhyngwladol cryf yn y maes hwn.

Rydym wedi gwneud hyn trwy:

- Darparu cyngor i dros 110 o ymchwilwyr ledled Cymru ar gynllunio, cynnal a lledaenu ymchwil.
- Cysylltu'n agos â'n cydweithwyr yn yr unedau treialon clinigol ledled Cymru i gynllunio gwerthusiadau economaidd o safon uchel ochr yn ochr â threialon ac astudiaethau clinigol.
- Cydweithio'n glos â byrddau ac Ymddiriedolaethau'r GIG gan ymgysylltu mwy

â mudiadau gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i hyrwyddo meddylfryd a dulliau economeg iechyd o fewn eu gweithgareddau a'u cynlluniau.

- Gweithio â chanolfannau ac unedau ymchwil eraill o fewn cymuned Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru – o gyfrannu at weithdai a gweithio ar geisiadau penodol, i aelodaeth graidd o'u timau ymchwil.
- Ymgymryd â chyflwyniadau mewn cynadleddau, gwahoddiadau i annerch ac ymweliadau ledled y DU a thu hwnt i hyrwyddo gwaith WHESS. Mae hyn wedi cynnwys ymweliad yn dilyn gwahoddiad i grwpiau economegyddion iechyd yr Alban ac Iwerddon gan yr Athro Edwards, hybu twf cymuned economeg iechyd tebyg i fodel WHESS; gwahoddiad a estynnwyd i'r Athro Fitzsimmons a Dr Anderson i ymweld â'r MD Anderson Center, Houston a phrifysgolion partner yn Texas; ymweliad llwyddiannus sydd eisoes yn arwain at gyfleoedd i gydweithredu ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre.



Yr Athro Deb Fitzsimmons (chwith) a Dr Pippa Anderson (canol) gyda'r Athro Shine Chang, Athro Epidemioleg, Prifysgol Texas MD Anderson Cancer Center, Houston, Texas UDA; Chwefror 2017

Cynorthwyo treialon clinigol sy'n cael ei harwain o Gymru: Sêl ynteu Farnais?

Roedd ymchwilwyr WHESS yn rhan o'r tîm amlddisgyblaethol o dan arweiniad yr Athro Chestnutt a'r Athro Chadwick yn Ysgol Ddeintyddol Prifysgol Caerdydd mewn cydweithrediad â Chyfadrann Ymchwil Treialon Prifysgol Caerdydd. **Mae'r treial Asesiad Technoleg Iechyd (HTA) NIHR hwn wedi gwerthuso effeithiolrwydd clinigol a chost gymharol selwyr tyllau o'i gymharu â farnais fflworid i atal pydredd dannedd mewn plant, wedi'i leoli o fewn poblogaeth yn Ne Cymru.** Dyfeisiwyd gwerthusiad cynhwysfawr gennym dros y tymor byr a hwy, gan gynnwys cleifion a'r cyhoedd o'r cychwyn i gynllunio, treialu a dehongli ein canlyniadau. **Gydag effeithiau clinigol tebyg, canfu ein dadansoddiad economaidd y byddai farnais fflworid yn lleihau costau i'r GIG mewn amryw o wahanol senarios.** Mewn llythyr at bob tîm deintyddol cymunedol yng Nghymru (dyddiedig 22 Chwefror 2017), **mae Prif Swyddog Deintyddol Cymru eisoes wedi defnyddio'r canfyddiadau'r treial i newid pwyslais y rhaglen 'Cynllun Gwên' yng Nghymru, gan ddangos yr effaith uniongyrchol ar boblogaeth Cymru.** Mae adroddiad llawn yr HTA (a gyhoeddwyd fis Ebrill 2017) ar gael yn: <https://www.journalslibrary.nihr.ac.uk/hta/hta21210/#/abstract>



/// Mynediad cyfartal at gyngor a chymorth economeg iechyd

Mae'r pecyn gwaith hwn wedi canolbwyntio ar ddarpariaeth gyfartal gan WHESS i'r sawl sy'n gwneud ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Mae ein gwaith wedi cynnwys:

- Sicrhau presenoldeb cryf WHESS ar Fwrdd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac aelodau o grwpiau cysylltiedig fel cyfarfodydd Rheolwyr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a chyfarfodydd RDCS Cymru Gyfan.

- Darparu cymorth pwrpasol i bob un o'r tri RDCS rhanbarthol yng Nghymru; gan gynnwys system brysbennu gan y tri arweinydd rhanbarthol, Rhiannon Tudor Edwards (Gogledd Orllewin Cymru), Pippa Anderson (De Orllewin Cymru) a Deb Fitzsimmons (De Ddwyrain Cymru), i sicrhau bod ceisiadau am gymorth yn cael eu cyfeirio'n brydlon at yr arbenigedd cywir o fewn WHESS.
- Rhoi cyngor i dros 100 o weithwyr proffesiynol y GIG a gofal cymdeithasol, o sesiynau cynghori unigol i gymorth i wneud ceisiadau.



Mae WHESS yn cyfrannu at ystod o bynciau ymchwil. Mae'r siart hwn yn dangos pa ganran o'n portffolio sy'n gysylltiedig â'r gwahanol feysydd ymchwil.

- Mae cymorth i ddigwyddiadau RDCS ar y lefel rhanbarthol a chenedlaethol wedi cynnwys gweithdai 'syniadau cynnar' ac 'enciliadau ysgrifennu Cymru gyfan i helpu gweithwyr proffesiynol i ddatblygu ceisiadau grant'; bu WHESS yn helpu dros 14 o geisiadau o bob rhan o Gymru trwy'r digwyddiad hwn ar gyfer cais am gyllid Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd (RfPPB) Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn Ionawr 2017.
- Mentora ymchwilwyr WHESS ar ddechrau ac ar ganol eu gyrfaedd i ddatblygu sgiliau a phrofiad i ymgysylltu â'r gymuned iechyd a gofal cymdeithasol fel helpu i ddatblygu ceisiadau ac ysgrifennu papurau.

- Cynorthwyo a mentora gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i ymgymryd â'u prosiect cyntaf, o brosiectau lleol y GIG sy'n cynnwys gwerthuso gwasanaeth, i helpu â dyfarniadau ymchwil ac ysgoloriaethau ymchwil ar gyfer doethuriaeth sy'n cael eu hariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- Cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau o fewn byrddau ac ymddiriedolaethau'r GIG, fel y digwyddiadau 'Shine' a gynhelir gan Fyrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Hywel Dda a'r 'Slam Gwyddoniaeth' ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.



Dr Andy Brand o NWORDH, Uned Treialon Bangor a'r Athro Rhiannon Tudor Edwards, CHEME yn y 'Slam Gwyddoniaeth'

/// **Arweinyddiaeth strategol a meithrin galluogrwydd mewn economeg iechyd yng Nghymru**

Mae WHESS yn dal i adeiladu ar ei fodol llwyddiannus, i sicrhau llywodraethu a rheoli effeithiol i roi cyfeiriad strategol, effeithiolrwydd, goruchwyliaeth ac atebolrwydd cyffredinol.

Gan adeiladu ar fwrdd cynghori WHESS yn 2015/16, rydym wedi manteisio ar arbenigedd a chynghori ein cadeirydd, yr Athro Dyfrig Hughes, a'r cynghorydd allanol, yr Athro Andrew Street (Prifysgol Efrog) i ddatblygu cynlluniau i sicrhau mwy o ymgysylltu a mewnbwn o bob rhan o'r DU ac i gynyddu cyfraniad cleifion a'r cyhoedd.

Yn ystod 2016/17, rydym hefyd wedi gwneud y canlynol:

• **Cynrychiolaeth well o wledydd datganoledig y DU ar fwrdd cynghori WHESS.**

Mae'r Athro Mandy Ryan o'r Uned Ymchwil Economeg Iechyd (HERU), Prifysgol Aberdeen wedi cytuno i ymuno â'r Bwrdd Cynghori, i rannu persbectif yr Alban. Mae'r Athro Ryan yn cydweithio'n agos â Swyddfa Prif Wyddonydd yr Alban a Llywodraeth yr Alban. Mae'r Athro Steve Morris, Athro Economeg Iechyd yn University College London (UCL) hefyd wedi ymuno â'r Bwrdd Cynghori. Yr Athro Morris yw Dirprwy Gyfarwyddwr y Centre of Applied Health Research ac mae'n gysylltiedig â'r University College London Hospitals (UCLH)/UCL Comprehensive Biomedical Research Centre a'r Division of Research Strategy.

- Mae cynlluniau hefyd i gynnwys aelod o'r RDCS Cymru Gyfan a'r CTUau ar ein bwrdd cynghori.
- Cynnwys o'n hymchwilyr ar ganol eu gyrfa o fewn arweinyddiaeth a rheolwyr WHESS, gyda phortffolio penodol â chyfrifoldeb am

ddatblygu ansawdd cyfathrebu ac ymgysylltu â chydweithredwyr a chreu effaith trwy gynhyrchu cyhoeddiadau o safon uchel.

- Cynlluniau datblygiad gyrfa personol ar gyfer holl ymchwilyr WHESS, gyda chymorth mentora, i helpu i feithrin galluoogydd.

Meithrin talent economeg iechyd yng Nghymru: Grŵp Economeg Iechyd Cymru (WHEG)

Mae WHESS wedi parhau i elwa ar gymorth i gynnal cyfarfod blynyddol WHEG sy'n dwyn ynghyd unedau ymchwil economeg iechyd academiaidd i ffurfio mas critigol o economegwyr iechyd yng Nghymru. **Wedi ei sefydlu'n wreiddiol yn 2000, mae WHEG yn gyfle gwerthfawr i WHESS i gwrdd gyda phwyslais penodol ar greu amgylchedd cefnogol i fyfyrwyr ôl-raddedig WHESS ac ymchwilyr ar ddechrau eu gyrfa i gael profiad o gyflwyniadau ac i gael cyngor gan economegwyr iechyd profiadol.** Yn 2016/17, buom hefyd yn datblygu gweithdy ar feysydd o fudd cyffredinol i ymchwilyr WHESS gael profiad mewn sgiliau allweddol. Fel rhan o sicrhau bod ein hymchwilyr yn cael eu hamlygu i'r cyd-destun polisi ac ymarfer ehangach, bu Dr Jonathon Price, Prif Economegydd Llywodraeth Cymru, yn cyflwyno darlith i wahoddedigion ar "Some things we know about economic disadvantage in Wales".

Prif gyflawniadau

Yn yr adran hon, rydym yn tynnu sylw at rai o'r ffyrdd y bu WHESS yn cyfrannu at yr agenda iechyd a gofal cymdeithasol, gyda phwyslais ar gerrig milltir allweddol a meysydd lle bu buddsoddiad i ddatblygu ein galluoogydd ymchwil trwy gydol 2016/17.

Llwyddiant ymchwil

Dyma rai o'r prif allbynnau:

/// Cynorthwyo i arwain ceisiadau am nawdd ymchwil o Gymru

- Yn ystod 2015-2017, mae ymchwilyr WHESS wedi cyfrannu at 74 o geisiadau i gynlluniau nawdd, gyda 43 wedi llwyddo hyd yma – cyfradd llwyddiant o 58%.

/// Cynhyrchu gwybodaeth newydd trwy gyhoeddiadau ac adroddiadau

- Mae ein proffil o brosiectau a gwblhawyd yn dangos record o gyflawniad gyda 66 o gyhoeddiadau o ymchwil a ddeilliodd o Gymru yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Rydym yn cyflawni ffactor effaith cyfartalog o 3.526 yn sgil cyhoeddi astudiaethau sydd wedi'u harwain yng Nghymru, a'r ffactor effaith uchaf ar gyfer erthygl mewn cyfnodolyn o astudiaeth sydd wedi ei harwain yng Nghymru yw 24.008 (Journal of Clinical Oncology).

Ar ddiwedd mis Mawrth 2017, roedd gwerth y prosiectau a ariannwyd ym mhortffolio WHESS tua £9.2 miliwn.

Cyfraniad at allbynnau ymchwil o safon ryngwladol: y prosiect CLARITY

Bu'r Prosiect CLARITY yn edrych ar ddiogelwch ac effeithiolrwydd un flwyddyn o ddefnyddio intravitreal aflibercept yn hytrach na'r ffotogeulad laser panretinaidd safonol ar gyfer retinopathi diabetig ymledol, sef yr achos mwyaf cyffredin o nam difrifol ar y golwg ymhlith pobl â diabetes. Yn yr astudiaeth, cafodd oedolion 18 oed neu hŷn â diabetes math 1 neu 2 ac a oedd heb eu trin yn flaenorol neu wedi cael triniaeth laser ar gyfer retinopathi diabetig ymledol gweithredol eu recriwtio o 22 o ganolfannau offthalmig yn y DU. Cafodd cleifion ei haseinio ar hap i gael intravitreal aflibercept neu ffotogeulad laser panretinaidd safonol ailadroddus am 52 wythnos. Cafodd y ddwy driniaeth eu hasesu yn ôl newid mewn craffter gweledol wedi'i gywiro gorau ar ôl 52 wythnos. Roedd 221 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth hon (112 yn y grŵp aflibercept, 109 yn y grŵp ffotogeulad laser panretinaidd). Roedd cleifion â retinopathi diabetig ymledol a gafodd eu trin ag intravitreal aflibercept yn dangos gwell canlyniad ar ddiwedd 1 flwyddyn o'i gymharu â'r rhai a gafodd eu trin â gofal safonol ffotogeulad laser panretinaidd. Canfuwyd nad oedd aflibercept yn israddol ac yn well na laser panretinaidd gyda gwahaniaeth cyfartalog yn y craffter gweledol wedi'i gywiro o 3.9 llythyren [95% CI 2.3–5.6], $p < 0.0001$) a 4.0 llythyren [2.4–5.7], $p < 0.0001$). Nid oedd dim pryderon ynglŷn â diogelwch.

Cafodd canfyddiadau'r astudiaeth hon eu cyhoeddi yn The Lancet:

Sivaprasad S, Prevost AT, Vasconcelos JC, Riddell A, Murphy C, Kelly J, Bainbridge J, Edwards RT, Hopkins D, Hykin P and CLARITY Study Group, 2017. Clinical efficacy of intravitreal aflibercept versus panretinal photocoagulation for best corrected visual acuity in patients with proliferative diabetic retinopathy at 52 weeks (CLARITY): a multicentre, singleblinded, randomised, controlled, phase 2b, non-inferiority trial. Lancet. 2017;389:2193-2203.

/// Datblygu llwybrau gyrfa cynnar a datblygu arweinyddiaeth mewn economeg iechyd

Mae nifer o ymchwilwyr WHESS yn datblygu eu portffolio eu hunain mewn meysydd gwaith allweddol o ganlyniad i fuddsoddiad a wnaethpwyd i feithrin talent.

- Mae **Dr Bernadette Sewell** wedi cyflawni nifer o lwyddiannau fel economegydd iechyd arweiniol ar sawl cais o Gymru, gan gynnwys y treial ABACUS a ddyfarnwyd yn ddiweddar mewn cydweithrediad â Chanolfan Ymchwil Canser Cymru a Gofal Canser Tenovus.

- Mae **Katherine Cullen**, ar y cyd â'r Athro Ceri Phillips, Secure Anonymised Information Linkage (SAIL) a RAND Europe wedi sicrhau prosiect a arweinir gan WHESS ac a ariannwyd gan y Gymdeithas MS i bennu costau peidio â

thrin Sglerosis Ymledol gyda Therapiau Addasu Clefydau.

- **Dr Sam Groves** yw'r economegydd arweiniol / cyd ymgeisydd ar y treial STUMBL a ariannwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (o dan arweiniad Dr Ceri Battle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac mewn cydweithrediad â CTU Abertawe). Nod y treial yw canfod hyfywedd treial terfynol yn y dyfodol sy'n cymharu'r defnydd o fodel argoelus i reoli cleifion â thrawma wal y frest pŵl yn yr Adran Frys o'i gymharu â rheolaeth gonfensiynol.

- Dyfarnwyd cymrodoriaeth ôl-ddoethuriaeth a ariannwyd gan Ymchwil Iechyd Gofal Cymru i **Dr Nathan Bray** a **Dr Carys Jones**.

Datblygu arweinyddion newydd mewn ymchwil economeg iechyd yng Nghymru: Cymrodoriaeth Dr Nathan Bray: y prosiect MobQOL

Bydd prosiect ymchwil cymrodoriaeth Nathan, o'r enw **MobQoL**, yn defnyddio dulliau ymchwil ansoddol a meintiol i ddatblygu **offeryn newydd i fesur ansawdd bywyd pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a chymhorthyddion symudedd**. Bydd hyn yn helpu ymchwilwyr a gweithwyr meddygol proffesiynol i ddeall sut y mae cymhorthyddion symudedd yn helpu i wella ansawdd bywyd pobl â phroblemau symudedd. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys cyfweild pobl â phroblemau symudedd ynglŷn â sut mae symudedd yn effeithio ar ansawdd eu bywyd, yna datblygu holiadur yn seiliedig ar eu hymatebion. Er mwyn creu system sgorio, bydd wedyn yn gofyn i nifer fawr o bobl ddatgan eu hoffter ar gyfer yr holl fathau o gyflyrau iechyd gwahanol a nodwyd yn yr holiadur newydd. Trwy gydol y prosiect, bydd yn profi'r holiadur i wneud yn siŵr ei fod yn ddilys a dibynadwy. **Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect ar gael ar y wefan MobQoL** <<http://cheme.bangor.ac.uk/mobqol>>

/// Cyfrannu at ddatblygiad polisi a phrosesau penderfynu yng Nghymru

Mae WHESS wedi parhau i ddarparu arbenigedd economeg iechyd lefel uchel, annibynnol i'r Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau (AWMSG) a'r Grŵp Meddyginiaethau Newydd (NMG), ac yn 2016 rhannodd ei arbenigedd â Grŵp Comisiynu Llwybrau Interim Cymru'n Un.

- Mae WHESS yn cynnig arbenigedd economeg iechyd i ystod o grwpiau, gan gynnwys Grŵp Gweithredu Iechyd Anadlol GIG Cymru, Grŵp Gwasanaethau Trawsnewid Canser Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Grŵp Gweithredu Canser (Is-grŵp Gofal Cleifion Ganolog), Gwasanaethau Diabetes Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC).
- Gan gydweithredu â chydweithwyr yn Cedar, Prifysgol Caerdydd, bu ymchwilwyr WHESS yn rhannu eu harbenigedd economeg iechyd a dadansoddiad i ategu canllawiau NICE (NG48)

ar iechyd y geg i oedolion mewn cartrefi gofal, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016 <https://www.nice.org.uk/guidance/ng48>

- Mae Dr Pippa Anderson wedi bod yn allweddol yn y gwaith o sefydlu Technoleg Iechyd Cymru, sydd wedi'i leoli gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Roedd hyn yn cynnwys ymweliad â Sweden a Denmarc ym mis Tachwedd 2016 i edrych ar eu modelau hwy fel sail i'r cyfeiriad strategol a'r cynllun gweithredol ar gyfer Cymru. Mae trafodaethau cychwynnol ar waith i edrych sut y gall WHESS gyfrannu at weithgaredd Comisiwn Bevan yng Nghymru.
- Mae Dr Pippa Anderson wedi arwain nifer o ddiwyddiadau blaenoriaethu gyda Byrddau Iechyd y GIG, a hwyluswyd gan ysgoloriaeth ymchwil PhD a ariannwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Gan ddefnyddio dulliau cyllidebu rhaglenni a dadansoddiad ymylol (PBMA), mae Dr Anderson wedi dyfeisio dull newydd, byd real sydd wedi cael ei brofi ar draws ystod o feysydd.

Edrych ar werth gwasanaethau trydydd sector i ofalwyr pobl â dementia yng Nghymru. Datblygu arweinyddion newydd mewn ymchwil economeg iechyd yng Nghymru: Cymrodoriaeth Dr Carys Jones.

Yng Nghymru mae 45,000 o bobl yn byw â dementia ac amcangyfrifir fod cost y salwch yn £1.4 biliwn y flwyddyn. Yr elfen fwyaf o'r gost hon yw'r **gofal di-dâl gan deulu a ffrindiau**. Gall gwasanaethau cymorth fod yn ddarniog ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae'r trydydd sector (e.e. mudiadau dielw ac elusennol) yn chwarae rhan bwysig i helpu pobl â dementia a'u teuluoedd. Bydd y Gymrodoriaeth hon, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn **edrych ar werth cymdeithasol gwasanaethau'r trydydd sector i ofalwyr pobl â dementia yng Nghymru**. Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys astudiaethau achos a dadansoddiad o fudd cymdeithasol buddsoddiad, mae gan ganfyddiadau a fydd yn deillio o'r Gymrodoriaeth hon y potensial i wella darpariaeth gwasanaethau trwy edrych ar y gwerth am arian a geir gan gynlluniau trydydd sector, canfod beth sy'n gweithio i bwy yn narpariaeth y gwasanaethau hyn, gan dynnu sylw at enghreifftiau o arferion gorau, a chanfod rhwystrau sy'n atal gofalwyr rhag manteisio ar y gwasanaethau hyn.

Buddiannau economaidd

Mae ein heffaith economaidd wedi cynnwys:

/// Mae enillion ar fuddsoddiadau i WHESS yn cyfateb i:

- £12 yn ôl am bob £1 a fuddsoddwyd mewn incwm grant i ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru o brosiectau a ddyfarnwyd gan gyrff cyllido yng Nghymru a thu hwnt.

/// Meithrin galluoedd y gweithlu

- Mae WHESS wedi llwyddo i ddatblygu mas critigol o economegwyr iechyd yng Nghymru gan gynnwys:
 - penodwyd 6 o economegwyr iechyd newydd yn 2016/17
 - mae 20 o ymchwilwyr yn awr yn gysylltiedig â WHESS, gan gynnwys mentora graddedigion PhD economeg iechyd sy'n gweithio mewn sefydliadau Addysg Uwch eraill yng Nghymru
 - mae 11 o fyfyrwyr PhD yn gysylltiedig â WHESS.
 - wedi hwyluso cyllid a fydd ar gael i gynnal

cyrsgau economeg iechyd ar draws rhaglenni gofal iechyd yng Nghymru gan gynnwys Meistr mewn Iechyd Cyhoeddus a Rhaglen Ymsang BSc ar gyfer Myfyrwyr Meddygol ym Mhrifysgol Caerdydd. Rhaglen Feddygol Mynediad i Raddedigion, a Phrifysgol Abertawe.

Buddsoddi ym meysydd gwaith y dyfodol

Cynnwys cleifion a'r cyhoedd

Un o amcanion allweddol 2016/17 oed gwella ein gwaith cynnwys cleifion a'r cyhoedd ac ymgysylltu. Gan adeiladu ar lwyddiant prosiectau allweddol lle mae llyegwyr nid yn unig wedi bod yn destun ymchwil ond sydd hefyd wedi bod yn gysylltiedig â chynllunio, rheoli a lledaenu ein gwaith, rydym yn y broses o recriwtio cynrychiolydd cleifion a'r cyhoedd ar ein bwrdd cynghori i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o gynnwys cleifion a'r cyhoedd ar draws rhaglen weithgaredd WHESS.

Rhoi cynnwys cleifion a'r cyhoedd wrth galon gwerthusiadau economeg iechyd: astudiaeth fraenaru AMD.

Mae astudiaeth fraenaru Dirywiad Macwlaidd sy'n Gysylltiedig â Henaint (AMD) yn gwerthuso symud darpariaeth gwasanaethau llygaid pedwar ysbyty i'r gymuned, wedi ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae grŵp rheoli'r astudiaeth yn cynnwys dau aelod llyeg o'r cyhoedd. Mae cynnal yr ymchwil hwn wedi ein galluogi i gysylltu ac i gael mewnbwn gan Gyngorau Iechyd Cymuned, sydd hefyd yn cynrychioli'r cyhoedd a chleifion. Mae'r cyfranogwyr hyn yn cynrychioli eu cymunedau ac maent yn sicrhau bod y rhai ohonom sy'n gwneud yr ymchwil yn cadw defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn flaenllaw yn ein meddyliau, gan sicrhau bod deunyddiau'r astudiaeth yn briodol i ymatebwyr, yn cadw traed y tîm ymchwil ar y ddaear ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n 'bosibl', ac yn helpu tîm yr astudiaeth i ddeall cynulleidfa leyg a sut y dylent gael canlyniadau astudiaethau a sut y mae'r rhain yn wahanol i ganlyniadau 'academaidd' neu 'glinigol'.

Adeiladu ar ein cyfraniad at ymchwil gofal cymdeithasol

Gydag ymrwymiad cynyddol i ddatblygu trefniadau cydweithredu cryfach i hybu ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru, mae WHESS wedi meithrin cysylltiadau â'r Ysgol Ymchwil Gofal

Cymdeithasol a sefydlwyd yn ddiweddar. Mae WHESS eisoes wedi cyfrannu at ystod o brosiectau ledled Cymru sydd ag elfen gofal cymdeithasol gref ac rydym yn bwriadu adeiladu ar y gweithgaredd hwn trwy benodi swyddog gofal cymdeithasol arweiniol ar gyfer WHESS.


Datblygu ymchwil yn y gymuned gyda'r gymuned: Gwerthusiad Solva Care

Roedd gwerthusiad Solva Care yn brosiect a arweiniwyd gan y gymuned i wella iechyd a llesiant pobl. Mae Solva Care yn cydlynu tîm o wirfoddolwyr sy'n ymweld â phobl hŷn a rhai agored i niwed sydd angen help â'u tasgau o ddydd i ddydd. Mae gwirfoddolwyr hefyd yn helpu gofalwyr trwy edrych ar ôl eu hanwyliaid am gyfnodau byr. Roedd yr astudiaeth am weld a oedd modd casglu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i ddisgrifio Solva Care a'r gwahaniaeth mae wedi'i wneud. Roedd cleientiaid Solva Care yn gwerthfawrogi'r cymorth emosiynol ac ymarferol roeddent yn ei gael ac roeddent yn teimlo ei fod yn eu galluogi i aros yn annibynnol ac i gyfrannu at y gymuned. Dywedodd gwirfoddolwyr fod eu rôl yn rhoi boddhad a phleser iddynt. Dangosodd yr astudiaeth ei bod yn bosibl casglu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i ymchwilio i sut mae Solva Care yn gweithio a pha wahaniaeth mae'n ei wneud. Canfuwyd hefyd fod **angen am Solva Care a'i fod yn cael ei werthfawrogi gan y gymuned. Mae ganddo'r potensial i alluogi pobl i fyw yn eu cartrefi'n hwy er bod eu hiechyd yn dirywio. Gall hefyd leihau defnydd heb ei gynllunio o wasanaethau iechyd a hyd arosiadau mewn ysbytai gan fod cymorth ar gael iddynt ar ôl eu rhyddhau.**

Gweithio ag asiantaethau a phartneriaethau eraill ar hyd cwrs bywyd

Gan adeiladu ar ethos cryf o ymagwedd iechyd cyhoeddus i ddeall penderfyniadau iechyd ac afiechyd mewn poblogaethau, a'r angen am feddylfryd a dulliau economeg iechyd i gael eu hymgorffori mewn gwerthusiadau cadarn o

ymyriadau cymhleth, mae ymchwilwyr WHES wedi datblygu portffolio cryf o waith ar draws cwrs bywyd, o ymyriadau blynyddoedd cynnar i ofal diwedd oes, a hynny'n aml trwy weithio mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid.



Mae enghreifftiau diweddar o brosiectau sydd wedi cael cymorth gan WHESS yn cynnwys:

- Ategu cyfraniad economeg iechyd at brosiect **Building Blocks 2** Prifysgol Caerdydd – astudiaeth ddilynol i werthuso canlyniadau tymor hir rhaglen ymweliadau cartref ar gam-drin plant yn Lloegr.
- Gweithio â chymdeithas Gentoo a Nottingham City Homes, i werthuso'r costau a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â gwelliannau i dai cymdeithasol. Cafodd y gwaith ei gyhoeddi'n ddiweddar yn yr International Journal of Public Health. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ariannu'r **myfyriwr PhD Eira Winrow** i ymchwilio ymhellach i **effaith tai ar iechyd a gwariant y GIG**.

- Digwyddiad diwedd astudiaeth ar gyfer astudiaeth Dementia a Dychymyg a ariannwyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) a Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a Dyniaethau (AHRC) i ymyriad celfyddydol ar gyfer pobl â dementia. Arweiniodd **CHEME** y pecyn gwaith gwerthuso economaidd ar gyfer yr astudiaeth, a chyflwynodd **Dr Carys Jones** y canfyddiadau ar y dadansoddiad Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI). Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ganolog i ddadansoddiad SROI, ac un o uchafbwyntiau'r digwyddiad oedd sesiwn banel a oedd yn cynnwys cyfranogwyr yr astudiaeth yn trafod eu profiadau a'u cysylltiad â'r prosiect.

Ehangu'r defnydd o economeg iechyd yn y sector addysg

Mae'r Athro Rhiannon Tudor Edwards a Dr Jo Charles wedi cychwyn ar raglen gydweithredol â'r Ysgol Seicoleg a'r Ysgol Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer ym Mhrifysgol Bangor a'r Centre for Educational Development, Appraisal and Research (CEDAR), ym Mhrifysgol Warwick, i gynnal ymchwil mewn canolfannau addysg. O dan y teitl '**Collaborative Institute for Education Research, Evidence and Impact (CIEREI)**', byddant yn gweithio â GwE, Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru i werthuso effaith darpariaeth gwella ysgolion GwE. Bydd y cydweithredu hefyd yn arwain WHESS i feysydd â'r angen mwyaf a'r effaith ar ganlyniadau allweddol i ysgolion a phlant, gan gynnwys iechyd a llesiant a siawns yn ddiweddarach mewn bywyd, gan greu cyfleoedd i gydweithredu yn y dyfodol.

Cydweithredu o fewn diwydiant

Mae'r astudiaeth ganlynol yn enghraifft lle cafodd WHESS wahoddiad i fod yn bartner ar gais 'H2020' mawr llwyddiannus a ariannwyd gan Ewrop.

Mae'r astudiaeth **FlowOx™** yn **gydweithrediad Ewropeaidd o dan arweiniad Prifysgol Salford a chwmni masnachol Preifat o Norwy, Otivio AS**. Cafodd prif gynnyrch Otivio, FlowOx™, ei ddatblygu ar gyfer clefyd rhedweliol ymylol (PAD). Mae FlowOx™ yn cynnwys system esgid pwysedd y mae cleifion yn ei gwisgo am tua 2 awr y dydd. Nid yw'n driniaeth ymyrrol ac mae wedi'i bwriadu i'w defnyddio yn y cartref. Dangosodd profion cynnar tymor hir ar gleifion **gynnydd yn llif y gwaed, llai o boen a chlwyfau'n gwella'n well o ganlyniad i ddefnyddio FlowOx™**.

Datblygu a mesur effaith dymor hir ein gwaith

Meddwl mwy am effeithiau

Mae cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol o dan bwysau mawr ac mae angen i Lywodraeth Cymru, GIG Cymru a darparwyr gofal cymdeithasol ddeall yn fwy nag erioed beth yw gwerth ymyriadau gofal cymdeithasol hen a newydd. Mae WHESS mewn sefyllfa gref i gyflenwi'r wybodaeth hon, ac felly sicrhau bod effaith, yn y tymor canolig a hwy, yn hysbys ac yn cael ei chofnodi fel rhan o'n strategaeth graidd.

Ni ellir cyflawni effaith lawn gweithgaredd WHESS oni bai bod meddylfryd economeg iechyd wedi ymwreiddio yng ngweithgaredd y sawl sy'n gysylltiedig â phrosesau penderfynu, o asesiad technoleg unigol ymlaen i bolisi, gydag economeg iechyd mewn sefyllfa i gyflawni Gofal Iechyd Darbodus a Dewis Gofalus.

Conglfaen ein strategaeth effaith yw cyfathrebu. Gan adeiladu ar ein llwyddiant hyd yma i gyfranogi ag unigolion, grwpiau ymchwil eraill, byrddau iechyd, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill, **rydym yn bwriadu creu ffordd o weithio sydd wedi'i halinio'n well, sy'n ymgysylltu mwy ac sy'n dryloyw er mwyn cael yr effaith ehangaf bosibl.**

Mae ein hymrwymiad i'r strategaeth hon yn cael ei wireddu trwy greu swyddog effaith WHESS arweiniol a sicrhau bod cyfnewid gwybodaeth ac effaith yn rhan o agenda graidd wedi'i diweddarau'r grŵp cynghori. Mabwysiedir ymagwedd dan reolaeth o'r cychwyn yn ein strategaeth sy'n edych i'r dyfodol, gan gynyddu a mesur effaith ein gweithgarwch.

Mae hyn yn cynnwys:

- Parhau i ddatblygu trefniadau cydweithredu rhwng sefydliadau fel adeiladu ar lwyddiant ein cydweithredu â Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTCC) mewn meysydd newydd fel technolegau diagnostig;
- Cael mwy o brawf a her i'n gwaith, trwy ein grŵp cynghori DU gyfan i sicrhau ein bod yn meincnodi ein gwaith yn erbyn y prif gystadleuwyr yn y DU ac yn rhyngwladol;
- Adeiladu ar ein llwyddiant i feithrin galluoedd sy'n cynnwys cynllunio ar gyfer olyniaeth arweinyddion economeg iechyd Cymru yn y dyfodol;
- Targedu ein cymorth yn well i alluogi ymchwilwyr eraill i drosi eu canfyddiadau (gan gynnwys tystiolaeth economeg iechyd) i ymarfer clinigol neu bolisiau arferol;
- Penodi swyddog cyfathrebu arweiniol ar gyfer WHESS a datblygu strategaeth gyfathrebu;
- Addasu ein deunydd cyfathrebu (gan gynnwys gwella ein gwefan a'n presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol) i sicrhau bod economeg iechyd wedi'i addasu a'i dargedu'n briodol at ein holl gynulleidfaoedd;
- Cyfrannu at ddigwyddiadau ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol fel digwyddiadau ymgysylltu, gweithdai a chynadleddau rhyngwladol;
- Parhau i feithrin cysylltiadau â Llywodraeth Cymru (er enghraifft, cafodd yr Athro Rhiannon Tudor Edwards ei gwahodd i'r Senedd gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r Gyllideb Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon gwerth £7 biliwn am 2017/18), byrddau iechyd, sefydliadau gofal cymdeithasol a thrydydd sector; a gwella ein rhyngweithio â sefydliadau masnachol;
- Defnyddio ein system cymorth effaith i fonitro a chasglu data i hybu effaith.

Casgliadau a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Yn 2016/17 gwelwyd WHESS yn cymryd camau pwysig ymlaen. Rydym wedi parhau i hyrwyddo ymagwedd 'Cymru Gyfan' yn ein gweithgarwch. Gyda'r buddsoddiad yn ein tîm, rydym eisoes yn dangos cynnydd ardderchog mewn adeiladu galluoedd a sicrhau bod gan Gymru gymuned economeg iechyd gref a bywiog ar gyfer y dyfodol, trwy ein tîm talentog o ymchwilwyr.

Mae ein hincwm ymchwil wedi cynyddu'n raddol, ac rydym yn gweithio'n dda ar draws ein holl sectorau, gan greu cyfleoedd newydd i gydweithredu gyda blaenoriaethau penodol i roi pwyslais ar wella ein cysylltiadau PPI a gofal cymdeithasol. Mae allbynnau ymchwil o safon uchel yn dychwelyd yn raddol, rydym wedi ehangu ein grŵp cynghori a byddwn yn rhoi blaenoriaeth i bwyslais ar ledaenu a chael dealltwriaeth ddyfnach 'o'r hyn rydym yn ei wneud' ymhlith ystod o gynulleidfaoedd sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gyda mwy o eglurder wrth ddangos ein heffaith.


Rydym yn edrych ymlaen at 2017/18 brysur a chynhyrchiol



Dr Pippa Anderson



Yr Athro Deb Fitzsimmons



Yr Athro Rhiannon
Tudor Edwards



<https://www.ymchwiliiechydagofal.llyw.cymru/gwasanaeth-cymorth-economeg-iechyd-cymru/>